CYPE(5)-20-20 - Papur i'w nodi 6

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

---

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Dyddiad | Date: 22 Gorffennaf 2020

Pwnc | Subject: **Dadl ar Adroddiad Blynyddol Estyn ar gyfer 2018-19.**

Annwyl Kirsty,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 13 Gorffennaf 2020, ynghylch cynnal dadl ar Adroddiad Blynyddol Estyn ar gyfer 2018-19.

Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'ch barn ar y mater hwn, sef y byddai'n fwy priodol gosod adroddiad blynyddol 2018-19 gerbron y Senedd i'w nodi, a hynny yng ngoleuni'r oedi rhwng cyhoeddi'r adroddiad a'r dyddiad posibl yn ystod tymor yr hydref pan ellir cynnal dadl arno yn y Cyfarfod Llawn.

Nodwn y ffaith eich bod yn disgwyl y bydd Adroddiad Blynyddol Estyn ar gyfer 2019-20 yn cael ei gyhoeddi ar 9 Rhagfyr, a'r ffaith y byddwch yn arwain dadl ar yr adroddiad hwnnw yn gynnar yn 2021. Yn ystod y ddadl honno, byddem yn falch o gael y cyfle i gyfeirio at bwyntiau sy'n codi o'n gwaith craffu ar adroddiad Estyn ar gyfer 2018-19, os ydynt yn berthnasol bryd hynny.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565